CYNGOR CYMUNED LLANDRILLO

LLANDRILLO COMMUNITY COUNCIL

Cysylltwr/Connector: Mrs Gaenor Richards,
Annedd Wen, Llandrillo, Corwen, Sir Ddinbych. LL21 0TH
☎: 01490 440262 **e-bost**: cyngorplwyf@llandrillo.cymru

Cofnodion cyfarfod Nos Wener, Mawrth 9fed, 2018 a gynhaliwyd yn y Ganolfan.

Yn bresennol:
Cynghorwyr:
Mr. David Williams (Cadeirydd), Mrs. Eira Lewis, Mrs. Anne Williams, Mr. Huw Lloyd, Mr. Geraint Jones, Mrs. Becky Mollison-White, Mr. John Wyn Jones, Mabon ap Gwynfor (Cynghorydd Sir)
a
Mr Chris Linder, Mr Bryn Roberts a Mr David Robinson.

1. Croesawyd pawb i'r cyfarfod gan y Cadeirydd, Mr. David Williams.

   Penodwyd Gaenor Richards fel Clerc i'r Cyngor Cymuned, a croesawyd hi i'r cyfarfod yn rhinwedd ei swydd.

2. **Ymddiheuriadau:**
   Mrs. Rhiannon Jones a Mr. Brynle Owen.

   Mr Chris Linder – **CAE CHWARAE** – offer chwaraeon, gwerth £2700 wedi ei brynu, ac ar hyn o bryd yn cael eu cadw gan y clwb bowlio.
   Camau nesa i'r cae chwarae – prynu caban £1500, torri'r gwrychoedd a lefelu'r cae (ar ddiwedd y tymor pêl-droed).
   Holodd am gael defnyddio y meinciau picnic sydd ar dir yr ysgol. Y Cynghorwyr yn fodlon.
   Y Cyfansoddiad wedi ei gwblhau a'i arwyddo.

   Mr. David Robinson – **TOILEDAU** – yn gofyn am rodd ar ran pwyllgor y toiledau. Daeth â llythyr gan ddefnyddiwr yn datgan pa mor lân ym mae'r toiledau. Cytunwyd

   Prosiect yr Hen Ysgol – yn gofyn am rodd i helpu gyda talu am ddefnyddio'r Ganolfan pan yn cynnal pwyllgorau. Y Cynghorwyr yn dweud I;r Ganolfan yrru yr anfonebau I'r Clerc.

3. **Cofnodion cyfarfod Chwefror 2il, 2018**
   Fe'u cafwyd yn gywir,.

4. **Materion yn codi o'r cofnodion**
   - **WAL Y FYNWENT** – D G Williams wrthi yn trwsio'r wal – Cost o £300

- **CERBYDAU 4X4** – Derbyniwyd diweddariad gan PC Martin Jones o weithrediad gan yr heddlu dydd Sadwrn 17eg Chwefror. Stopiwyd 58 modur, ac roedd rhestr o wahanol ddirwyon â roddwyd allan.
- **GIAT Y FYNWENT** – Brian Williams yn fodlon i gwblhau'r gwaith.

5. Gohebiaeth

- Ysgol Bro Dyfrdwy – Blwyddyn 5 a 6 yn gofyn am gyfraniad tuag at eu trip Llangrannog. Cytunwyd i roi £200
- Cylch Meithrin Cynwyd – yn gofyn am gyfraniad tuag at symud y Cylch o'r ysgol i'r Ysgol Isaf, sydd angen gwariant mawr i'w neud yn ddiogel. Roedd y cynghorwyr yn gefnogol o'r Cylch, ond yn cynnig iddynt ddefnyddio'r Ganolfan yma yn Llandrillo, gan y bod teuluoedd yma yn Llandrillo sydd methu cyrraedd y Cylch yn Cynwyd, ac i'r Cyngor Plwyf dalu eu rhent. Clerc i yrru llythyr yn datgan eu cynnig.
- Cyrsiau Cyngor – Neb angen mynd ar cwrs ar hyn o bryd.

6. Materion Cynllunio

- Pentre Bach – atgoffwyd nad oedd dim gwrthwynebiad gan neb dros y ffôn.
- Glan Ceidiog – dymchwel garej a chodi estyniad. Dim gwrthwynebiad

7. Materion Ariannol

- Talu D. Williams £300 – costau atgyweirio wal y fynwent.
- Talu Ysgol Bro Dyfrdwy - £200 tuag at trip Llangrannog
- Talu Un Llais Cymru - £95.00 tâl aelodaeth
- Cwblhau ffurflen Mandad y banc.
- Talu Gaenor Richards - £119.99 Microsoft Office ar gliniadur y Cyngor Cymuned.
- Bydd y siec o £1000 Melinau Gwynt Tyfos yn cael ei dalu yn union i'r Ganolfan, gan eu bod yn medru hawlio 20% yn ychwanegol gan eu bod yn elusen.
- ARCHWILIAD MEWNOL – Enwebwyd Maria Williams i gyflawni yr awdit mewnol – y clerc i yrru llythyr.

8. **Unrhyw fater arall**
    - **TENDER TORRI GWAIR Y FYNWENT** – Roedd Becky wedi derbyn 3 ymholiad, ond dim ond un tendr a ddaeth i law yn cynnig £450 am bob ymweliad. Datganwyd y bod y pris yma yn rhy ddrud, ac i'r clerc gysylltu i ofyn am bris gwell, ac i ehangu'r hysbyseb.
    - Bydd tŷ ar gael yn Rhoslan yn fuan, a datganwyd pryder y dylai'r tŷ fynd i pobol lleol. Datganodd Mabon ap Gwynfor y bydd Cyngor Sir Ddinbych yn blaenoriaethu'r tai i pobol lleol, ond os nad oes unrhyw berson lleol ar y rhestr, mae'n cael ei osod i deulu o tu allan i'r ardal.
    - Daeth i sylw y Cynghorwyr y bod cyllid gan Sir Ddinbych, sy'n cael ei reoli gan nifer o dai newydd sy'n cael ei adeiladu yn y gymuned. Ar hyn o bryd, mae £1237.00 yno, ac os na gaiff ei ddefnyddio, bydd yr adeiladwr yn ei hawlio yn ôl. Mabon yn ymchwilio.
    - Tyllau yn y ffyrdd/strydoedd a'r palmentydd – Mae'r tyllau wedi eu llenwi ar y strydoedd, ond nid yw'r palmentydd wedi eu trwsio ym Mro Dinam na tu allan i Godre'r Berwyn.
    - Bwrdd Dwr – Pryder am dim neu pwysedd dwr isel yn aml. Mae Mabon ap Gwynfor mewn trafodaeth â nhw ar hyn o bryd.
    - Coed Nyrs Gron – datganwyd y bod grant ar gael ar hyn o bryd gan yr Ymddiriedolwyr Goedwigaeth. Clerc i ymchwilio.

Cyfarfod nesaf Nos Wener, Ebrill 6ed am 7.00 y.h. yn y Ganolfan.

Arwyddwyd: ……

Dyddiad : ……